## PRICE, MARGARET BERENICE (1941 - 2011-01-28), cantores

**Enw:** Margaret Berenice Price
**Dyddiad geni:** 1941
**Dyddiad marw:** 2011-01-28
**Rhiant:** Thomas Glyn Price
**Rhiant:** Lilian Myfanwy Price (née Richards)
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** cantores
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Rhidian Griffiths

Ganwyd Margaret Price ar 13 Ebrill 1941 yn y Coed Duon, yn ferch i Thomas Glyn Price a'i wraig Lilian Myfanwy (g. Richards). Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Uwchradd Pontllan-fraith, a'i bwriad gwreiddiol oedd bod yn athrawes bioleg. Er bod ei thad yn bianydd medrus, nid oedd yn cymeradwyo gyrfa gerddorol i'w ferch, ond yn bymtheg oed enillodd hi ysgoloriaeth i Goleg Cerdd y Drindod yn Llundain, lle bu'n ddisgybl i Charles Kennedy Scott. Wedi gadael y Coleg ymunodd â Chantorion Ambrosian a chael profiad ymarferol gwerthfawr ganddynt, gyda'r bwriad o fod yn gantores lieder. Er gwaethaf ei anfodlonrwydd cynnar, daethai ei thad yn gefnogwr brwd i yrfa gerddorol ei ferch, a bu'n gohebu ar ei rhan â chwmnïau opera.

Ymddangosodd gyntaf yn rhan Cherubino yn *Le nozze di Figaro* gan Mozart gyda Chwmni Opera Cymru yn 1962, a chanodd yr un rhan yn Covent Garden pan ddirprwyodd yn llwyddiannus iawn i'r gantores Sbaenaidd, Teresa Berganza. O hynny ymlaen, daethpwyd i'w hadnabod fel cantores opera, yn arbenigo ar operâu Mozart a Verdi. Sefydlodd bartneriaeth broffesiynol lewyrchus gyda James Lockhart, a fu'n ei hyfforddi ac yn cyfeilio iddi am rai blynyddoedd, gan symud ei llais yn raddol o mezzo-soprano i soprano. Bu'n canu yn Glyndebourne, ac ymddangosodd gyntaf yn yr Unol Daleithiau yn San Francisco yn 1969 yn rhan Pamina yn *Die Zauberflöte*. Ni chafodd gyfle i ganu yn yr Opera Fetropolitanaidd yn Efrog Newydd tan 1985, ond gwnaeth hynny'n llwyddiannus iawn, yn rhan Desdemona yn *Otello* Verdi. Dewisai ei rhannau'n ofalus, ac ni fyddai'n canu dim nad oedd yn addas i'w llais. Roedd yn enwog am ei dehongliad o ran Desdemona a rhan Donna Anna yn *Don Giovanni* Mozart. Ar gais yr arweinydd Carlos Kleiber, recordiodd ran Isolde yn opera Richard Wagner, *Tristan und Isolde*, i gymeradwyaeth gyffredinol, er na fyddai'n canu'r rhan ar lwyfan. Diogelwyd ei llais ar nifer o recordiadau opera o safon uchel, ond daliai i berfformio lieder ar hyd ei gyrfa. Ymsefydlodd yn 1981 yn yr Almaen, lle bu'n brif gantores yn y Staatsoper yn Munich hyd ei hymddeoliad yn 1999. Testun siom i lawer oedd na chafodd fwy o gyfleoedd i berfformio yn nhai opera Prydain.

Roedd Margaret Price yn enwog am gyfoeth ac esmwythder ei llais, a enynnai gryn edmygedd ymhlith beirniaid. Mewn cyfweliad gyda Yehuda Shapiro ar gyfer y cylchgrawn *Opera*, a fwriadwyd fel teyrnged iddi ar ei phen blwydd yn 70, ond a ymddangosodd fel erthygl goffa, dywedodd ei bod yn ddigon bodlon ar ei gyrfa, a'i bod wedi cael canu popeth a fynnai. Am ei bod yn berffeithydd, câi'r enw o fod yn anodd, ond roedd yn y bôn yn berson didwyll a diymhongar a anelai at y gorau yn ei pherfformiadau. Roedd gwybodusion byd opera yn ei chyfrif yn un o'r ugain soprano orau yn y byd.

Wedi ymddeol o fyd canu yn 1999 dychwelodd i Gymru i fyw yn ymyl Bae Ceibwr ar arfordir sir Benfro, lle bu'n bridio ac yn arddangos c n. Fe'i hurddwyd yn CBE yn 1982 ac yn DBE yn 1993. Bu farw o drawiad ar y galon ar 28 Ionawr 2011, yn 69 oed.

## Awdur

**Rhidian Griffiths**

## Ffynonellau


*The Guardian*, 30 Ionawr 2011

*The Independent*, 2 Chwefror 2011

Yehuda Shapiro, 'The Price of Perfection', *Opera*, Ebrill 2011

Rian Evans, 'Margaret Price' yn *Hymns and Arias: Great Welsh Voices* (Cardiff 2001), Trevor Herbert and Peter Stead (goln.)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Margaret Price

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 17408611

Wikidata: Q254781

**Dyddiad cyhoeddi:** 2023-09-14

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu